# YSGOL
# BETWS Y COED

## PROSBECTWS YSGOL
## 2025 - 2026



**‘Ynghyd ar daith - tyfu â phob cam’**








# LLAWLYFR GWYBODAETH I RIENI

# 2025 - 2026

**Ysgol Betws y Coed,**
**Betws y Coed, Conwy, LL24 0PB**

**01690 710581**

**pennaeth@betwsycoed.conwy.sch.uk**

**http://www.ysgolbetwsycoed.cymru**

**Ysgol Betws y Coed**

**Pennaeth Strategol : Mrs N. Jones-Artell**

**Cadeirydd y Llywodraethwyr**
**Mrs Meri Williams**

**Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg**
**Dr Lowri Brown**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
**Coed Pella**
**Bae Colwyn**
**LL29 7AZ**

**Ffôn : 01492 575599**

**Er bod y manylion yn y ddogfen hon yn gywir pan gyhoeddwyd hwy ni ellir rhagdybio na fydd unrhyw newid a all effeithio ar y trefniadau perthnasol cyn dechrau neu yn ystod y flwyddyn ysgol neu mewn blynyddoedd i ddod.**

## CROESO I'R YSGOL

Annwyl Rieni / Gofalwyr

Mae dewis yr ysgol gywir i'ch plentyn yn hollbwysig. Fel rhieni rydych am sicrhau addysg dda i'ch plant yn ogystal a dewis ysgol sy'n sicrhau awyrgylch hapus ac ymdeimlad o fod yn ddiogel. Yn Ysgol Dolwyddelan, credwn y gallwn gynnig pob un o'r pethau hyn. Mae awyrgylch hapus, naws teuluol a natur gweithgar yr ysgol yn un lle mae pawb yn cael eu trin fel unigolion ac yn cael eu hadnabod a'u gwerthfawrogi gan bawb arall yn yr ysgol.

Ein hegwyddor ganolog yw ceisio datblygu doniau pob disgybl i'r eithaf a chadarnhau hunan-barch a gwerth pob un o'n plant. Byddwn yn sicrhau profiadau i feithrin dysgwyr iach, hyderus ac annibynnol gan ddatblygu meddylfryd a pherthnasoedd cadarnhaol fydd yn sylfaen gadarn i'r dyfodol.

Rydym yn gwerthfawrogi ein disgyblion ac yn credu y dylai eu hamser yn yr ysgol fod yn werthfawr ac yn foddhaus. Credwn fod addysg yn cychwyn wrth ein traed. Ymfalchïwn yng Nghymreictod a diwylliant ein hardal leol ac ymrwymwn i ennyn balchder ynddo, yn yr iaith Gymraeg ac mewn bywyd dwyieithog.

Edrychaf ymlaen at eich cyfarfod chi a'ch plentyn.

Yn gywir


**N.H.Jones-Artell**
**Pennaeth**



## EIN GWELEDIGAETH

- Ysgol hapus a chroesawgar sy’n creu disgyblion iach a hyderus
- Cydweithio da rhwng disgyblion, staff, rhieni a’r gymuned
- Cynnig cyfle cyfartal i bawb
- Pawb yn gwneud eu gorau glas i gyrraedd ei lawn botensial
- Creu cyfranogwyr mentrus, uchelgeisiol a chreadigol
- Magu ethos o feddylfryd twf a hyrwyddo lles personol
- Meithrin dinasyddion egwyddorol a gwybodus
- Gosod Sylfaen cadarn ar gyfer dysgu gydol oes

## ‘Ynghyd ar daith - tyfu â phob cam’



## NOD AC AMCANION YR YSGOL

**Nod yr ysgol yw sicrhau addysg o'r ansawdd orau bosib i bob plentyn yn unol â'u hoedran, eu gallu a'u diddordebau er mwyn iddynt dyfu yn bersonoliaethau llawn, datblygu ac ymarfer eu holl ddoniau a chymhwyso eu hunain i fod yn aelodau cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog.**

Creu amgylchfyd ac awyrgylch lle gall disgybl dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolion hyderus, yn ymwybodol o werthoedd moesol a dyngarol, gan ddatblygu hunan-barch a goddefgarwch tuag at eraill, ac felly ein harwyddair yw 'Ynghyd a'r daith – tyfu â phob cam.'

Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf bosibl sydd yn adlewyrchu gofynion yr unigolyn, y gymdeithas, y Cwricwlwm i Gymru y Llywodraethwyr a'r Awdurdod Addysg Leol.

Galluogi pob disgybl i ddatblygu i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg fel y gallent gymryd rhan lawn ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymdeithas ddwyieithog yr ydym yn perthyn iddi.

**AMCANION CYFFREDINOL**

1. Cynnal a chodi safonau cyflwyniad disgyblion ym mhob maes dysgu a phrofiad yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru.
2 Gosod seiliau ar gyfer sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn yr ysgol.
3 Sicrhau cwricwlwm eang, cytbwys, perthnasol a chyfoethog.
4 Galluogi pob unigolyn i feithrin gwybodaeth, agweddau a medrau sy'n berthnasol i fywyd cyfoes, i addysgu am oes ac i ddefnyddio amser hamdden yn greadigol.
5 Sicrhau cyfleoedd cyfartal a mynediad i'r cwricwlwm cyflawn.

**AMCANION PENODOL**

1 Sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n rhan o gymdeithas ddisgybledig sy'n rhoi bri yn ei bywyd a'i gwaith ar werthoedd moesol, ysbrydol a dyngarol.

2 Meithrin parch a goddefgarwch tuag at bobl o bob cefndir, cred a diwylliant a sicrhau cyfleoedd cyfartal beth bynnag fo'u hil, crefydd, rhyw, rhywioldeb, oedran neu anabledd.

3 Sicrhau y datblygir gallu pob disgybl i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg fel cyfrwng dysgu yn unol â Pholisi Iaith yr Awdurdod Addysg.

4 Sicrhau bod dilyniant a datblygiad yn y profiadau a'r gweithgareddau a ddarperir a bod cyfran helaeth o'r profiadau hynny yn adlewyrchu natur bywyd a diddordebau'r disgyblion.

5 Sicrhau bod pob maes yn rhoi sylw i'r Cwricwlwm Cymreig.

6 Galluogi disgyblion i ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn amrywiaeth o gyd-destunau cwricwlaidd.

7 Sicrhau y defnyddir dulliau dysgu ac addysgu o ansawdd uchel fydd yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu meddyliau ymchwilgar a bywiog, y gallu i gwestiynu a thrafod yn rhesymol, i ddatrys problemau real ac i weithio'n annibynnol

## DISGRIFIAD O'R YSGOL

Mae Ysgol Betws-y-Coed yn un o Ysgolion Ffederasiwn Capel Coed-Elan, sef ffederasiwn o dair ysgol fach, wledig sydd yn uwch ddyffryn yr afon Gonwy. Dwy ysgol arall y ffederasiwn yw Ysgol Dolwyddelan ac Ysgol Capel Garmon.
Mae hi'n ysgol Gynradd Sirol o ddosbarth Meithrin hyd at flwyddyn 6.
Mae'n ysgol ddyddiol, Gymraeg, gydaddysgol.

Ar hyn o bryd mae 15 o blant.
Cyflogir 2 o athrawon yn ogystal â Phennaeth Strategol sy'n gyfrifol am 3 ysgol sydd wedi Ffedereiddio.
Cyflogir CADY (Cydlynydd Anghenion Ysgol Ychwanegol) sy'n gweithio'n strategol ar draws y ffederasiwn am ddiwrnod pob wythnos.
Mae un cymhorthydd dosbarth yn gweithio yn yr ysgol llawn amser.

Mae'r mannau chwarae yn cynnwys llain galed, cae ac ardal ddysgu allanol gaeedig i blant yr adran dysgu Sylfaen.

## POLISI DERBYN YR YSGOL

'Cyn Ysgol' - Yn rhan amser (boreau Llun - Gwener) ar ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.
'Meithrin' – Yn rhan amser (boreau Llun – Gwener) ar ddechrau blwyddyn addysgol newydd (Medi) - pryd y byddant yn dathlu eu pen-blwydd yn 4 oed yn ystod y cyfnod : Medi - Awst.
Yn llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn 4 oed.

**Yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am bolisi derbyn yr ysgol**, ac mae copi o'u polisi ar gael gan Adran Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar eu gwefan www.conwy.gov.uk, ac hefyd ar ein gwefan : Ysgol Betws Y Coed | Betws Y Coed, Conwy

Mae Meithrinfa 'Twt Lol' (Pentrefoelas) yn cynnig gwasanaeth casglu plant Meithrin a Mwy / Meithrin o'r ysgol am 12:55 i fynychu'r feithrinfa am weddill y dydd.
Am fanylion pellach cysylltwch gyda Lowri Jones – Rheolwraig Twt Lol

Meithrinfa Twt Lol

01690 770335

meithrinfa.twtlol@outlook.com

## ORIAU DYSGU

**Adran Dysgu Sylfaen – Dosbarth Mês:** 22 awr a 30 munud yr wythnos
**Adran Iau – Dosbarth Derwen:** 22 awr a 40 munud yr wythnos

| | |
|---|---|
| **Clwb Brecwast** | **8.00 y.b. – 8.45 y.b.** (brecwast olaf 08:30) |
| Sesiwn Bl Meithrin a Meithrin Mwy: | 8:55 y.b. - 11:55 y.b. (20 munud amser chwarae) |
| Sesiwn y Bore Adran Dysgu Sylfaen: | 8:55 y.b. - 11:55 y.b. (20 munud amser chwarae) |
| Sesiwn y Bore Adran iau: | 8:55 y.b. - 12: y.p.. (20 munud amser chwarae) |
| Sesiwn y Prynhawn – Dosbarth Mês: | 1:00 y.p. - 3:15 y.p. (15 munud amser chwarae) |
| Sesiwn y Prynhawn – Dosbarh Derwen: | 1:00 y.p. 3:15 y.p. (15 munud amser chwarae |

## STAFF YR YSGOL

| **Pennaeth / Headteacher** | |
|---|---|
| Mrs Nia Jones-Artell | |
| **Athrawon / Teachers** | |
| **Dosbarth Mês**<br>(Adran Dysgu Sylfaen) | Mrs Nia Thomas-Jones<br>**Pennaeth Cynorthwyol** |
| **Dosbarth Derwen**<br>(Adran Iau) | Mr Guto Hughes |
| **CADY** | |
| Mrs Manon Tudur | |
| **Cymhorthydd Dysgu** | |
| Mrs Sylvia Evans | |
| **Swyddog Gweinyddol** | |
| Mrs Helen Chapman | |
| **Staff Ategol** | |
| Gofalwraig | Mrs Carolyn Jones |
| Cogyddes | Mrs Beverley Williams |
| Staff Clwb Brecwast | Mrs Carolyn Jones<br>Mrs Sylvia Evans<br>Mrs Julie Roberts |

Mae rhestr gyfredol o'r aelodau Staff ar ein gwefan : Staff yr Ysgol | Ysgol Betws Y Coed - Betws Y Coed, Conwy

## CORFF LLYWODRAETHOL YR YSGOL

| CORFF LLYWODRAETHOL YSGOLION FFEDERASIWN CAPEL COED-ELAN | |
|---|---|
| **Cynrychiolaeth AALl** | |
| Capel Garmon | Mrs Mary Williams - **Cadeirydd** |
| Betws y Coed | *SEDD WAG* |
| Dolwyddelan | *SEDD WAG* |
| **Cynrychiolydd Rhieni** | |
| Capel Garmon | Mr Greg Cavey<br>Mrs Ceridwen Jones |
| Betws y Coed | Mr Gareth Dwyer<br>Mrs Michelle Gilmore-Parry |
| Dolwyddelan | Mrs Emma Kidd<br>Mrs Elen Roberts |
| **Cynrychiolaeth Cyngor Cymuned** | |
| Capel Garmon | Mrs Elin Sion |
| Betws y Coed | Mrs Ffiona Jones |
| Dolwyddelan | Miss Teleri Jones |
| **Cynrychiolaeth Gymunedol** | |
| Capel Garmon | Mrs Lyndsey Duncalf |
| Betws y Coed | *SEDD WAG* |
| Dolwyddelan | Mr Aidan Thomas |
| **Cynrychiolaeth Athrawon** | |
| Capel Garmon | Mrs Elin Pyrs Owen |
| Betws y Coed | Mrs Nia Thomas-Jones |
| Dolwyddelan | Mrs Ceris Elwen |
| **Pennaeth** | |
| Mrs Nia Jones-Artell | |
| **Clerc** | |
| Mrs Janet Hughes | |

Mae rhestr gyfredol o'r aelodau'r Corff Llywodraethol ar ein gwefan : Ysgol Betws Y Coed | Betws Y Coed, Conwy

## TREFNIANT YMWELD

Gall rhieni sydd yn ystyried anfon eu plant i'r ysgol hon wneud trefniadau i ymweld â'r ysgol i gasglu rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â'r Pennaeth / Pennaeth Cynorthwyol ymlaen llaw.

Gwahoddir rhieni sydd â'u plant yn dechrau o'r newydd ymweld â'r ysgol yn ystod tymor yr Haf cyn i'r plant ddechrau yn yr ysgol ym mis Medi.

Dylai rhieni a phob ymwelydd weld y Pennaeth / Pennaeth Cynorthwyol yn gyntaf wrth ymweld â'r ysgol.

Fel rhan o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, cewch gysylltu â Mrs N. Jones-Artell, Pennaeth yr ysgol er mwyn trefnu cymorth os oes gan riant neu ofalwr anghenion ychwanegol yn ymwneud ag anabledd a/neu iaith, mater diwylliannol y bydd arnynt angen cymorth mewn digwyddiad arbennig.

**Canllawiau i Ymwelwyr**
Rhaid i unrhyw un sy'n dod ar dir yr ysgol ar gyfer gweithgaredd nad yw'n gysylltiedig â'r ysgol gyfyngu eu hunain i'w man dynodedig, a pheidio ag ymwneud â'r disgyblion a gweithgareddau'r Ysgol.

## CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU

Codir taliad LLAWN ar rieni am yr eitemau canlynol:

1. Difrod i werslyfrau neu gyfarpar addysgol o ganlyniad i gamymddygiad disgybl.

2. Bwyd a llety ar gyfer gweithgareddau preswyl a drefnir gan yr Ysgol neu'r AALl (ac eithrio pan fo gan ddisgyblion hawl statudol i ryddhad rhag talu)

3. Gweithgareddau a gynhelir y tu allan i oriau ysgol.

Fe fydd modd talu trwy'r gwefan – Parentpay.com

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae Ysgol Betws y Coed yn anelu at sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd pob disgybl yn cael eu trin fel unigolyn ac ni fydd unrhyw ddisgybl yn cael eu trin yn fwy neu'n llai ffafriol na'u cyfoedion. Cysylltwch â'r ysgol i drafod unrhyw bryderon unigol neu anghenion unigol.

Mae gan yr ysgol strwythur cefnogi i blant sy'n cael eu cydnabod gydag Anghenion Dysgu ychwanegol, yn cynnwys plant hynod abl. Yr ysgol sy'n gyfrifol am leoli plant ar y camau a nodir yng 'Nghod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru' ac am fonitro ac adolygu. Mae Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol (CADY) yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i athrawon a rhieni o fewn yr ysgol. Mae cynnydd yn cael ei fonitro trwy gyfarfodydd adolygu cyson pan fydd rhaglenni dysgu ac ystyriaeth i'r angen am gymorth ychwanegol yn cymryd lle.

**Amcanion**
- Datblygu darpariaeth ddysgu ychwanegol effeithiol wedi'i thargedu ar gyfer yr ysgol gyfan
- Sicrhau proses glir ar gyfer nodi, asesu, cynllunio, darparu, adolygu a gwerthuso ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY, gyda'u teulu fel rhan ganolog
- Darparu cwricwlwm sy'n eang ac yn gytbwys i ennyn diddordeb pob plentyn ac unigolyn ifanc ar bob lefel ac i hyrwyddo diwylliant dysgu cynhwysol

- Sicrhau cydraddoldeb darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY
- Galluogi i blant a phobl ifanc ag ADY gyflawni eu potensial
- Sicrhau bod y teulu'n chwarae rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau
- Ystyried barn, dymuniadau a theimladau plentyn neu unigolyn ifanc
- Darparu cyngor a chefnogaeth i'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY

Gweler ein Polisi ADY ar ein gwefan : Ysgol Betws Y Coed | Betws Y Coed, Conwy

## GWASANAETH CYNORTHWYOL

Mae nyrs yr ysgol yn ymweld â'r ysgol yn achlysurol. Mae yn bosib siarad gyda'r nyrs drwy ffonio Canolfan Crwst, Llanrwst, 03000850048 (opsiwn 2).

Gall yr ysgol gael mynediad at gymorth gan wasanaethau ychwanegol e.e. Therapydd lleferydd ac iaith, Seicolegydd Addysgol, y Tîm Nam ar y Clyw, Cymorth Ymddygiad neu Gwnsela Ysgol os oes angen yn dilyn ymgynghoriad gyda rhieni. Gofynnir i rieni hysbysu'r ysgol o unrhyw anabledd corfforol a allai amharu ar ddatblygiad eu plentyn.

## TEITHIO I'R YSGOL

Mae'r ysgol yn annog rhieni i gerdded neu feicio wrth ddod a'u plant i'r ysgol. Gofynnwn am gydweithrediad pawb er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Anogir rhieni i fod yn ofalus wrth barcio wrth yr ysgol ac **i beidio â pharcio ar y llinellau igam ogam.**

## YSGOL IACH

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i'r Cynllun Ysgol Iach felly rydym yn annog y plant i ddod â ffrwythau a llysiau i'r ysgol i'w bwyta yn ystod amseroedd egwyl. Rydym hefyd yn annog y plant i yfed dŵr yn ystod y dydd ac mae ffynnon ddŵr ar gael i lenwi poteli yn yr ysgol. **Ni chaniateir creision, siocled, bisgedi na fferins.**
Hyderwn y byddwch yn ein cefnogi gydag egwyddorion byw'n iachus.

## NOFIO

Bydd cyfle i **bob** plentyn o'r flwyddyn Derbyn hyd at flwyddyn 6 fynychu gwersi nofio am gyfres o 10 sesiwn yn ystod y flwyddyn addysgol ym mhwll nofio Llanrwst. Mae'r gwersi yn rhad ac am ddim, ond gofynnir am gyfraniad tuag at y costau cludiant.
Byddwn hefyd yn eu haddysgu am Ddiogelwch Dŵr sy'n rhan bwysig o'n cwricwlwm.

## CHWARAEON

Dros y flwyddyn mae'r dysgwyr yn cael cyfle i brofi a datblygu sgiliau o fewn gwahanol chwaraeon a gemau. Maent hefyd yn cael datblygu eu sgiliau o fewn y meysydd: nofio, dawns, athletau, gemau taro a maesu a gweithgareddau anturus. Gwneir defnydd o'r neuadd, yr iard a chae'r ysgol ar eu cyfer. Byddem hefyd yn defnyddio Pwll Nofio Llanrwst ar gyfer gwersi nofio / diogelwch yn y dŵr. Fel ysgol yr ydym yn manteisio ar arbenigeddau datblygwyr chwaraeon y sir o bryd i'w gilydd. Byddem yn mynychu Canolfan Glan-llyn/Llangrannog ar gyfer addysg awyr agored/anturus.
Disgwylir i bob plentyn wisgo'n addas ar gyfer pob gwers. Mae hyn yn elfen diogelwch pwysig. Gofynnir I chi hysbysu'r ysgol (drwy lythyr) os oes unrhyw reswm meddygol pan na all plentyn gymryd rhan mewn sesiynau addysg gorfforol / chwaraeon.

## YR URDD

Anogir i ddysgwyr ymaelodi gyda'r Urdd, sef cyfle i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.
Mae cangen o'r Urdd yn yr ysgol a chyfle i'r plant ymaelodi yn flynyddol. Bydd gweithgareddau yn enw'r Urdd yn cael eu cynnal yn yr ysgol a chyfle i bawb gystadlu mewn cystadlaethau celf, graffeg gyfrifiadurol, crefftau, chwaraeon a llwyfan.
Bydd plant blwyddyn 5 a 6 yn cael y cyfle i fynychu ymweliadau preswyl â Gwersyll yr Urdd Glan-llyn, Caerdydd neu Langrannog yn flynyddol.

## GWERSI OFFERYNNOL

Mae athrawon teithiol yn ymweld â'r ysgol i ddarparu gwersi offerynnol a Cerdd Cydweithredol Conwy yw'r darparwyr. Mae'r athrawon yn cynnig sesiynau blasu offerynnau amrywiol ar gychwyn y flwyddyn academaidd er mwyn i'r plant gael cyfle i glywed a chwarae offerynnau amrywiol.
Cyfeirwch at eu safwe am wybodaeth bellach : Cerdd Cydweithredol Conwy | Gweledigaeth newydd am ddarpariaeth cerdd yng Nghonwy

## GWISG YSGOL

Mae gan yr ysgol hon wisg ysgol swyddogol, ond nid oes gorfodaeth ar blant i'w gwisgo. Er hyn, teimlir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi. Mae gennym siwmperi gyda logo'r ysgol ar werth drwy law Brodwaith - Brodwaith - Home ond nid ydyw hyn yn orfodol. Mae croeso i rieni brynu gwisg ysgol o unrhyw siop neu archfarchnad yn lliwiau ein gwisg ysgol.

RHAID labelu'r dillad yn eglur.
Mae'r plant yn cael gwisgo clustdlysau bach os bydd angen.

**Gaeaf**

Sgert neu binaffor las ddu , trowsus du
Siwmper/crys chwys neu gardigan gwyrdd tywyll
Crys polo coch







**Haf**

Ffrog siec werdd, sgert neu binaffor ddu
Trowsus byr du

**DILLAD ADDYSG GORFFOROL**

Siorts du
Crys-t gwyn
Treinyrs

brodwaith





## CINIO YSGOL

Mae'r holl blant o'r flwyddyn Derbyn i flynyddoedd 6 yn mwynhau cinio poeth am ddim yn sgìl ymgyrch prydau am ddim i blant ysgol Llywodraeth Cymru. Mae'r plant yn bwyta yn ffreutur yr ysgol o dan oruchwyliaeth y staff amser cinio. Mae diod o ddŵr ar gael iddynt os ydynt yn dymuno. Os oes gan eich plentyn anghenion bwyta / dietegol arbennig bydd angen cyfarfod gydag ein cogyddes, Anti Bev er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb i'w anghenion penodol.

Mae'r disgyblion cyn-ysgol a'r Meithrin yn talu am ginio ysgol. Y prisiau cyfredol cinio iddynt yw - £3.30 y dydd £16.50 yr wythnos
Mae arian cinio i'w dalu o flaen llaw ar Parent Pay, ein system taliadau ar-lein.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â chinio ysgol ac i lawr lwytho copi o'r fwydlen ewch i : Gwiriad Bwydlen Ysgolion Cynradd - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy neu i'n gwefan : Ysgol Betws Y Coed | Betws Y Coed, Conwy

## CLWB BRECWAST

Mae gan yr ysgol Clwb Brecwast sydd yn cynnig brecwast am ddim i holl ddisgyblion yr ysgol. Mae'r Clwb Brecwast yn cychwyn am 8.00 y.b. hyd at 8.45 y.b. gyda'r brecwast olaf am 08:30.

## PRESENOLDEB YN YR YSGOL

Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon yn bwysig iawn. Mae ein polisi ar Bresenoldeb yn diffinio absenoldeb 'awdurdodedig' ac 'anawdurdodedig' a'r gofynion gan Lywodraeth Cymru. (Mae copi o'r polisi ar gael ar gais)

**Gwyliau Teuluol** - Ni all ysgol ganiatáu i blentyn golli mwy na 10 diwrnod ysgol ar gyfer gwyliau mewn unrhyw flwyddyn addysgol oni bai fod yna amgylchiadau eithriadol a bydd angen i bresenoldeb eich plentyn fod yn gyson dda. Mae ffurflenni gwyliau ar gael o'r Swyddfa.

**Prydlondeb** – Hoffem bwysleisio pwysigrwydd cyrraedd yn yr ysgol cyn 8:55 y.b. i sicrhau fod pob plentyn wedi setlo ac yn barod i ganolbwyntio ar ddysgu a datblygu. Mae cyrraedd yn hwyr yn achosi i blant deimlo yn ansefydlog ac yn amharu ar eu dysgu.

**Monitro Presenoldeb** – Caiff presenoldeb a phrydlondeb disgyblion eu monitro'n wythnosol. Byddwn yn cysylltu gyda chi os oes gennym bryderon. Caiff ein presenoldeb ei fonitro yn rheolaidd gan Swyddog Lles Addysg Conwy.

**Salwch** - Os ydyw eich plentyn yn absennol oherwydd salwch neu yn mynychu apwyntiad meddygol/deintyddol a wnewch chi adael i'r ysgol wybod trwy ffonio cyn 9:30y.b. ar y diwrnod. Bydd yr ysgol yn cysylltu gyda chi os na dderbynnir galwad ffôn gennych i hysbysu am absenoldeb. Bydd hyn yn sicrhau fod yr ysgol yn cofnodi absenoldebau yn gywir ac yn dilyn ei protocol diogelu.

Gweler ein Polisi Presenoldeb ar ein gwefan : Ysgol Betws Y Coed | Betws Y Coed, Conwy

## GWYBODAETH YCHWANEGOL

**Arian Poced / Pethau Gwerthfawr**

Ni ddylai plant ddod ag arian i'r Ysgol os nad oes wir angen hynny arnynt ar gyfer pwrpas penodol. Os digwydd hynny, gofynnir iddynt roi'r arian neu bethau gwerthfawr personol yn swyddfa'r Ysgol ar ddechrau'r dydd i osgoi cwynion am golledion o bocedi, bagiau a.y.b. Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am eiddo coll.

**Teganau**
Ni chaniateir i'r plant ddod a theganau drud / pethau gwerthfawr - gall colli neu dorri hoff eitem neu eitem ddrud achosi llawer o bryder.

**Beiciau / Sgŵters**
Rydym yn annog disgyblion i ddefnyddio dulliau actif i ddod i'r ysgol megis cerdded a beicio. Cynigir hyfforddiant beicio ym mlynyddoedd 5 a 6 a hyfforddiant sgwtro ym mlynyddoedd 3 a 4. Plant sydd wedi

bod yn llwyddiannus yn y Cwrs Beicio Cenedlaethol sydd yn cael eu hargymell i ddod a beiciau i'r ysgol heb oedolyn. Bydd angen i bawb sydd yn dod a beic i'r ysgol wisgo helmed. Cyfrifoldeb y perchennog yw diogelu ei feic yn yr ysgol.

## Y CWRICWLWM

**<u>Beth ydy 'Cwricwlwm' yn Ysgol Betws y Coed?</u>**
Cwricwlwm ysgol ydy popeth y mae dysgwr yn ei brofi yn yr ysgol. Wrth ddylunio cwricwlwm Ysgol Betws y Coed mae anghenion ein dysgwyr yn flaenllaw yn ein meddyliau. Rydym yn rhoi ystyriaeth fanwl i **Beth** rydyn ni'n ei addysgu, **Sut** rydyn ni'n ei addysgu a hefyd **Pam** rydyn ni'n ei addysgu.

**4 Diben Cwricwlwm i Gymru ydy craidd a chalon Cwricwlwm Ysgol Betws y Coed**.
Maen nhw'n sail i bob agwedd o'n dylunio cwricwlwm, ein cynllunio a'n addysgu. Mae ein gweledigaeth a'n gwerthoedd fel ysgol yn cefnogi'r 4 diben a chrynhown isod yr hyn maent yn ei olygu i ni. Bydd ein profiadau dysgu a'n dulliau addysgu yn anelu at wireddu'r isod bob

| Dysgwyr uchelgeisiol, galluog... sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau, ac sy'n : | Cyfranwyr mentrus, creadigol ... sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith, ac sy'n: | Dinasyddion egwyddorol, gwybodus ...sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd, ac sy'n: | Unigolion iach, hyderus... sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, ac sy'n datblygu: |
|---|---|---|---|
| • gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain<br>• mwynhau her a datrys problemau<br>• datblygu gwybodaeth a sgiliau a'u cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau<br>• gallu trafod eu dysgu yn hyderus<br>• gallu cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg,<br>• gallu defnyddio mathemateg a rhif a thechnolegau digidol yn effeithiol<br><br> | • meddwl yn greadigol<br>• cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu, i addasu ac i datrys problemau<br>• adnabod cyfleoedd a manteisio arnynt<br>• hyderus i fentro<br>• arwain a chydweithio mewn timau<br>• mynegi eu syniadau a'u hemosiynau mewn gwahanol ffyrdd<br>• defnyddio eu hegni a'u sgiliau er budd eraill<br><br> | • ffurfio barn a thrafod materion ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd<br>• deall ac arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol<br>• deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd<br>• gwybod am eu diwylliant a'u cymuned,<br>• gwybod am gymdeithas a'r byd presennol ac yn y gorffennol<br>• parchu anghenion a hawliau pobl eraill fel aelod o gymdeithas amrywiol<br>• gweld bod ganddynt rôl i'w chwarae i sicrhau cynaladwyedd y blaned<br><br> | • iechyd a diogelwch corfforol a meddyliol,<br>• cydberthnasau yn seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth<br>• gwerthoedd personol<br>• sgiliau ac annibyniaeth i ddelio gyda bywyd bob dydd<br>• y gallu i wynebu a goresgyn heriau<br><br> |

Mae Betws y Coed yn gweithio'n galed i sicrhau fod nodau'r 'Cwricwlwm i Gymru', ar waith yn yr ysgol. Drwy'r cwricwlwm byddem yn sicrhau fod ein dysgwyr yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

I sicrhau'r uchod yr ydym yn anelu at ddarparu cwricwlwm sydd:

- yn ddilys; wedi ei wreiddio'n gadarn yng ngwerthoedd a diwylliant Cymru;

- wedi ei selio ar dystiolaeth: manteisio ar yr arferion gorau yng Nghymru ac o fannau eraill ac yn seiliedig ar ymchwil gadarn;
- yn ymateb i wahanol anghenion gan fod yn berthnasol i anghenion heddiw (yn unigol, yn lleol ac yn genedlaethol) ond gan roi hefyd yr wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sydd eu hangen ar bobl ifanc i wynebu heriau'r dyfodol fel dysgwyr gydol oes;
- yn gynhwysol: hawdd i bawb ei ddeall, gan gynnwys yr hawl i addysg o'r safon uchaf i bob plentyn ac ystyried eu safbwyntiau yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a safbwyntiau rhieni a'r gymdeithas ehangach;
- yn uchelgeisiol: gan gynnwys disgwyliadau uchel a pheidio â phennu terfynau artiffisial ar gyflawniad a her i bob plentyn a pherson ifanc;
- fod yn rymus: datblygu cymhwysedd fydd yn galluogi pobl ifanc i allu wynebu heriau eu bywydau yn y dyfodol yn hyderus;
- yn sicrhau dilyniant a llif gydag elfennau sy'n cyfuno ac yn datblygu i ffurfio undod;
- yn ennyn diddordeb: annog mwynhad wrth ddysgu a boddhad wrth feistroli pynciau heriol;
- yn ennyn hyder pawb ac annog perchnogaeth a phenderfyniadau priodol gan y rhai sydd agosaf at y broses ddysgu ac addysgu;
- yn hylaw: cydnabod y goblygiadau o ran trefniadau asesu ac atebolrwydd priodol a chael cefnogaeth y trefniadau hynny hefyd.

Mae ein cwricwlwm diddorol, ysgogol a heriol wedi ei gynllunio i ddarparu ar gyfer holl anghenion y disgyblion, waeth beth fo eu gallu. Defnyddir cyfuniad o ddulliau o gynllunio'r cwricwlwm yn yr ysgol hon yn unol â'r gofyn yn unol ag oedran y dysgwyr a chyd-destun y dysgu.
Bydd elfennau o gynllunio ar gyfer addysgu uniongyrchol, disgyblaethol ac amlddisgyblaethol yn digwydd er mwyn dysgu ac ymarfer sgiliau penodol yn y boreau tra bo dysgu trawsgwricwlaidd yn digwydd yn y pnawn trwy wahanol themâu.

Bydd pwyslais ar y Gymraeg a chreu ethos Cymreig o fewn yr ysgol ac yn y themâu yn rhan bwysig o ddatblygu unrhyw waith yn Ysgol Betws y Coed. Rydym yma i feithrin dysgwyr sydd yn falch o'u gwreiddiau ac o'u hunaniaeth Gymreig.
Trwy ddefnyddio'r elfennau rhyngddisgyblaethol ac integredig er mwyn ymarfer sgiliau ymhellach a'u cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau trawsgwricwlaidd yr ydym yn ysbrydoli plant, annog annibyniaeth a datblygu eu chwilfrydedd naturiol.

Mae addysgu a dysgu trawsgwricwlaidd, yn ogystal â chynllunio gofalus, yn sicrhau datblygiad cadarn a chontinwwm yng ngwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau pob plentyn ar draws pob maes dysgu. Rhoddir cryn bwyslais ar ymgorffori datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm o fewn cyd-destunau trawsgwricwlaidd.

## Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol ac yn hyderus yn hanfodol ar gyfer pob disgybl. Yr ydym wedi gwreiddio Llythrennedd a Chyfathrebu yn ein cwricwlwm gan fanteisio ar ddatblygu iaith ym mhob sefyllfa bosibl, gan alluogi disgyblion i weld y cyswllt bwriadol, dilys sydd gan ieithoedd i sefyllfaoedd bywyd go iawn.

| Beth sy'n bwysig: | Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd. | Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. | Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. | Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd |
|---|---|---|---|---|

Mae pob disgybl ar ei daith dysgu ei hun. Rydym yn annog ac yn cefnogi pob plentyn i gyrraedd ei lawn botensial fel darllenwyr, ysgrifenwyr, siaradwyr a dysgwyr.

Effaith: Sut ydym yn gwybod ein bod wedi cyflawni ein nodau?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd ein plant yn ddysgwyr llawn dychymyg, creadigol, empathi, gwydn, llawn cymhelliant ac yn annibynnol. | Bydd pob plentyn yn cymryd camau ymlaen yn eu dysgu. | Gall disgyblion gyfathrebu'n effeithiol mewn ystod o fformatau megis siarad ac ysgrifennu mewn gwahanol ieithoedd, y defnydd o dechnoleg, cynhyrchu ysgrifennu mewn gwahanol genres a pherfformio a chyflwyno ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd. | Bydd ein dysgwyr yn gyffrous ac yn barod i ddysgu trwy gydol eu hoes, gan chwarae rhan lawn yng ngham nesaf eu taith addysgol, yn ogystal â bod yn ddinesydd Cymru a'r byd. |

## Mathemateg a Rhifedd

Rydym yn meithrin agweddau cadarnhaol, diddordeb, cyffro a darganfyddiadau trwy addysgu a dysgu mathemateg yn Ysgol Betws y Coed. Rydym yn annog agwedd 'gallu gwneud' yn enwedig wrth ddatrys problemau. Mae'n bwysig i ni fod pob plentyn yn defnyddio iaith mathemateg yn hyderus drwy resymu ac esbonio i eraill.

| Beth sy'n bwysig: | Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau. | Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol. | Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol. | Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus |
|---|---|---|---|---|

### Y 5 Hyfedredd mewn Mathemateg

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhoi cyfleoedd i ddangos dealltwriaeth gysyniadol drwy.....esbonio a mynegi cysyniadau. | Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gyfathrebu â symbolau trwy...dangos dealltwriaeth o gonfensiynau symbolau. | Rhoi cyfle i'r dysgwyr ddangos cymhwysedd strategol trwy...adnabod y fathemateg sydd ei hangen i ddatrys problem. | Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos rhuglder trwy...adalw cyflym o ffeithiau, perthnasoedd a thechnegau. | Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos ymresymu rhesymegol trwy...deall perthnasoedd rhwng ac o fewn cysyniad. |

## Iechyd a Lles

Rydym yn ymdrechu'n barhaus i ddarparu amgylchedd dysgu diogel, gofalgar, cynhwysol sy'n dathlu a chofleidio amrywiaeth. Gwelwn bob plentyn fel unigolyn arbennig sydd â'i sgiliau a thalentau unigryw ei hun. Braint ydyw meithrin a datblygu'r unigolion yma gan eu cefnogi ar eu taith i ddod yn unigolion hyderus iach ac yn aelodau gwerthfawr o'n cymdeithas. Ymfalchïwn wrth gefnogi ein disgyblion i ddatblygu a chynnal eu hiechyd corfforol a'u lles yn ogystal â'u hiechyd meddwl a'u lles emosiynol, yn ogystal â datblygu perthnasoedd cadarnhaol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Byddwn yn meithrin gallu disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles ac yn eu hannog i ymgysylltu'n feirniadol ag ystod o ddylanwadau cymdeithasol a allai effeithio ar eu gwerthoedd a'u hymddygiad. Dathlwn chwilfrydedd ein disgyblion gan eu cefnogi i wneud synnwyr o'r byd trwy feddwl am eu teimladau a'u profiadau.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Beth sy'n bwysig:** | Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.. | Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol | Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill. | Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles. | Mae cydberthynasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles. |

## Y Dyniaethau

Yr ydym yn dysgu trwy ymholi, archwilio ac ymchwilio i ysbrydoli chwilfrydedd am ardal Betws y Coed, Dyffryn Conwy, Cymru a'r byd ehangach. Byddwn yn gwneud hyn trwy astudio'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol.
Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth ac yn cael eu dirnad, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd. Rydym yn archwilio sut mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi ei ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. Rydym yn darparu profiadau uniongyrchol trwy ymweliadau a phrofiadau megis cestyll a thai mawr lleol, amgueddfeydd, Glan-llyn a Chanolfan yr Urdd Caerdydd. Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac amrywiol, ac yn cael eu siapio gan weithredoedd a chredoau dynol. Mae ethos ein hysgol yn annog ymchwilio, parchu, dathlu a chroesawu gwahanol ddiwylliant a ffydd.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Beth sy'n bwysig:** | Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. | Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd. | Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl. | Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd y camau ystyrlon ac egwyddorol. |

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Yn Ysgol Betws y Coed yr ydym am i Wyddoniaeth a Thechnoleg danio chwilfrydedd, syndod a rhyfeddod o fewn ein disgyblion. Datblygir sgiliau ymholi gwyddonol disgyblion gan annog disgyblion i ofyn cwestiynau, rhagfynegi, archwilio, cynllunio, trafod, myfyrio a mwynhau profiadau ymarferol. Rydym am i ddisgyblion fod yn angerddol am ddeall y byd o'u cwmpas, pam ei fod, pa mor gysylltiedig yw ein byd a sut y gallent gael effaith.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Beth sy'n bwysig:** | Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau. | Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas. | Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. | Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau. | Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd. | Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol. |

## Celfyddydau Mynegiannol

Rydym yn meithrin disgyblion i fod yn feddylwyr creadigol. I ddathlu ein cymuned amrywiol rydym yn archwilio sut y gall gwaith creadigol gynrychioli hunaniaeth bersonol, gymdeithasol a diwylliannol. Er mwyn galluogi ein dysgwyr i fynegi eu creadigrwydd eu hunain, rydym yn rhoi cyfleoedd i archwilio ac arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau. Rydym am i'n disgyblion fod yn unigolion ysbrydoledig a hyderus, sy'n gallu llunio ehangder eu gwybodaeth a'u sgiliau i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog. Bydd ein disgyblion yn cael eu hannog i berfformio, cynhyrchu, dylunio a rhannu eu gwaith creadigol trwy amryw o ysgogiadau a phrofiadau.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Beth sy'n bwysig:** | Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol. | Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol. | Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg. |

**Asesu a Chynnydd**


Mae Cwricwlwm i Gymru yn rhoi'r cyfle i ni sicrhau mai cynnydd dysgwyr yw prif bwrpas Asesu ac nid ymarfer atebolrwydd. Dyma pam yr ydym ni yn Ysgol Betws y Coed yn gweld pwysigrwydd ddatblygu darlun cyflawn o ddatblygiad pob dysgwr, yn cynnwys eu lles, eu parodrwydd ac awydd i ddysgu yn ogystal â datblygiad eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Rhown bwyslais ar bwysigrwydd sicrhau cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ar draws ymarferwyr yr ysgol ac ar drafodaethau rheolaidd gyda rheini a gofalwyr i drafod cynnydd eu plant.

Bydd yr asesu yn Ysgol Betws y Coed yn sicrhau ein bod yn:

- Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd
- Yn nodi, crisialu a myfyrio ar gynnydd disgybl dros amser

- Deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion.

Yr ydym yn gosod ac yn adolygu targedau unigol pob plentyn drwy’r flwyddyn addysgol.
Rhoddir profion safonedig darllen a sillafu i ddisgyblion Bl.2-6 yn yr Hydref ac eto yn fis Ebrill, gwnawn hefyd ddefnydd effeithiol o asesiadau cenedlaethol - Asesiadau Personol Darllen a Rhifedd er mwyn adnbod meysydd neu agweddau sydd angen sylw a /neu gefnogaeth ychwanegol.
Yn ychwanegol at hyn, mae egwyddorion cynnydd sy’n sail i’n cynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr ar draws y meysydd dros amser




## POLISI IAITH

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy weledigaeth i sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol rhugl a hyderus yn y Gymraeg a’r Saesneg. Rydym am sicrhau bod pob cyfle i blant a phobl ifanc y sir i fod yn aelodau cyflawn o’r gymdeithas ddwyieithog / amlieithog y maent yn rhan ohoni fel eu bod yn dymuno defnyddio’r iaith o fewn y teulu, yn y cymunedau ac yn y gweithle.

Ar draws ysgolion Cymru, y mae nifer y categorïau ysgolion wedi newid o bump i dri yn y sector cynradd a thri yn y sector uwchradd. Mae ysgol cyfrwng Saesneg yn ysgol Categori 1, ysgol dwy iaith yn ysgol Categori 2 ac ysgol cyfrwng Cymraeg yng Nghategori 3.

Y mae Ysgol Betws y Coed wedi ei gosod yn y categori ieithyddol 3. Rydym yn gwireddu ein hanghenion ieithyddol cwricwlaidd yn unol â gofynion statudol Cwricwlwm i Gymru er mwyn ymgyrraedd â diffiniad categori 3.

Nod yr ysgol yw galluogi pob disgybl hyd eithaf eu gallu fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Bydd unrhyw ohebiaeth rhwng yr ysgol a'r cartref yn ddwyieithog.

**Categori 3: Cyfrwng Cymraeg** Cymraeg yw prif iaith yr ysgolion yma, a bydd cyswllt gyda rhieni a gofalwyr yn y Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Mae ethos Gymreig gryf yn amlwg mewn ysgolion categori 3, a bydd eich plentyn yn cael pob help a chefnogaeth i ddefnyddio Cymraeg ym mhob sefyllfa y tu mewn a thu allan i'r dosbarth. Bydd pob gwers yn Gymraeg, hyd nes i'r plant fod yn saith oed, a bydd athrawon yn defnyddio ychydig o Saesneg wrth ddysgu er mwyn gwneud yn siŵr fod dysgwyr yn deall popeth.

Mewn ysgol categori 3, bydd eich plentyn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Gymraeg a Saesneg yn unol ag oed a gallu. Mae pob plentyn mewn addysg Gymraeg yn cael ei dysgu yn yr un dosbarth, boed nhw'n siarad Cymraeg adre a'i peidio.

Bydd plant yn dechrau gwersi Saesneg yn saith oed, ac o hynny ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgaredd ysgol eich plentyn (y tu mewn a thu allan i'r dosbarth) yn Gymraeg.

Mae gwybodaeth bellach yn y ddogfen :
**Canllaw categoreiddio ysgolion cynradd: Gwybodaeth i rieni a gofalwyr** (Llywodraeth Cymru) sydd ar ein gwefan : Ysgol Betws Y Coed | Betws Y Coed, Conwy

## GWAITH CARTREF

Mae gwaith cartref yn arf bwysig yng nghynlluniau pob ysgol i ymestyn profiadau'r ysgol i'r cartref, ac i ennyn diddordeb y rhieni yn natblygiad eu plant. Mae'r dasg gwaith cartref yn gysylltiedig â'r gwaith a wna'r disgyblion yn yr ysgol, yn aml fel tasg baratoi, atgyfnerthu neu barhad o elfen o waith y dosbarth.

Bydd llyfrau darllen yn cael eu gyrru adref yn rheolaidd yn unol ag oedran a sgiliau darllen y dysgwr. Gwaith amrywiol fydd y gwaith cartref megis geiriau sillafu i'w dysgu a gwaith ymchwilio i gyd-fynd â'r thema. Disgwylir i blant gwblhau'r tasgau wedi eu cyflwyno'n dda ac o fewn yr amser dynodedig

## ADDYSG CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG AC ADDOLI CYFUNOL

Mae gwasanaethau ysgol gyfan a gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn agwedd bwysig o ethos Ysgol Betws y Coed. Mae'r agwedd grefyddol wedi ei gysylltu â phrofiadau'r plant yn eu bywydau pob dydd, gan bwysleisio ar agweddau allgarol a gofalgar crefydd. Mae'r gwasanaethau eraill sy'n cael eu cynnal yn agwedd pwysig er mwyn datblygu'r teimlad o gymuned. Addysgir plant am wahanol grefyddau gyda phwyslais ar Gristnogaeth. Mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plant o wersi Addysg Grefyddol a sesiynau addoli cyfunol.

## ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB

Mae Ysgol Betws y Coed yn anelu i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol, emosiynol a chorfforol bob dysgwr ac sy'n eu paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a heriau bywyd fel oedolyn.
Mae llywodraethwyr a staff ein hysgol yn credu fod ACRh yn elfen hanfodol mewn addysg gytbwys a holistig.
Credwn y bydd rhaglen ACRh a gynlluniwyd yn dda yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i ddysgwyr i wneud dewisiadau diogel a chyfrifol wrth iddynt dyfu i fyny.
Rydym yn cydnabod ein bod yn byw mewn cymdeithas amrywiol ac y bydd dysgwyr yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd teulu. Bydd ein rhaglen ACRh yn anelu i fod yn sensitif a pharchu gwahaniaethau wrth alluogi dysgwyr i ddeall y gwahaniaeth rhwng perthnasoedd iach a pherthnasoedd nad ydynt yn iach a gwerthfawrogi pwysigrwydd amgylchedd sefydlog, diogel a chariadus ar gyfer bywyd teuluol.

**Nodau**
Bydd ein rhaglenni astudio yn anelu i helpu dysgwyr i symud o blentyndod trwy lencyndod i oedolaeth:

- Datblygu agweddau cadarnhaol a gwerthoedd sy'n dylanwadu ar y ffordd maent yn ymddwyn
- Dechrau datblygu sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau cyfrifol a gwybodus i gadw eu hunain yn iach a ffurfio perthnasoedd iach
- Deall agweddau corfforol ac emosiynol blaen lencyndod
- Parchu eu hunain ac eraill
- Gwerthfawrogi amrywioldeb a dathlu gwahaniaeth
- Adeiladu perthnasau llwyddiannus ac iach
- Gwerthfawrogi pwysigrwydd perthnasoedd personol sefydlog a chariadus
- Adnabod y gwahaniaeth rhwng cyffwrdd ac ymddygiad priodol ac amhriodol
- Gwybod sut i gael cyngor a chefnogaeth briodol

**Cyflwyno'r rhaglen ACRh**

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi ei integreiddio o fewn gwaith dosbarth yn unol â gofynion y Cwricwlwm. Mae yn cael ei addysgu gyda sensitifrwydd. Nid yw'n bwnc ar wahân ond wedi ei integreiddio i'r ddarpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol ac Iechyd a Lles.
Rydym yn ceisio bod mor agored â phosib gyda'r pwnc yn y dosbarth ac yn ateb cwestiynau yn agored ac yn sensitif. Nodwedd ganolog o'r agwedd hon o'r cwricwlwm yw'r pwyslais ar bwysigrwydd bywyd teuluol a pherthnasau cariadus a gofalgar.

Os oes unrhyw riant yn poeni am yr agwedd hon o'r cwricwlwm, yna mae croeso i chi ei drafod gyda'r Pennaeth / Pennaeth Cynorthwyol.

## GOFAL BUGEILIOL / DIOGELU DISGYBLION

Mae holl aelodau'r staff o fewn yr ysgol yn gyfrifol am ddiogelwch ac amddiffyniad y plant sy'n mynychu. Mae'r ysgol yn cydnabod ei dyletswydd statudol i weithio gydag asiantau eraill wrth warchod plant rhag niwed ac ymateb i gam driniaeth. Os oes unrhyw bryderon ynglŷn ag esgeuluso neu gamdriniaeth gorfforol, emosiynol neu rywiol, yna, yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Conwy, mae gan y staff ddyletswydd i roi gwybod am y mater i Gydlynydd Diogelu Plant yr Ysgol. Gall gydlynydd yr ysgol ymgynghori gyda chydweithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis Gwasanaeth iechyd a

Chymdeithasol. Oherwydd natur y cyhuddiadau efallai na fydd hi bob amser yn addas i drafod y mater gyda rhieni cyn gwneud cyfeiriad. Mae’r cyfrifoldeb hwnnw yn nwylo’r gwasanaethau cymdeithasol a’r heddlu.

Mae’r staff yn ceisio mabwysiadu agwedd agored sy’n derbyn tuag at blant fel rhan o’u gofal bugeiliol. Mae staff yn gobeithio y bydd rhieni a phlant yn teimlo yn rhydd i siarad am eu pryderon gan weld yr ysgol fel lle diogel pe bai anhawster yn y cartref. Bydd pryderon plant yn cael eu cymryd o ddifri os byddant yn ceisio cymorth gan aelod o staff. Fodd bynnag, ni all staff sicrhau cyfrinachedd pe bai’n rhaid cyfeirio pryderon i’r asiantaeth briodol er mwyn diogelu lles y plentyn.

**Cydlynwyr Diogelu yr ysgol yw Mrs Nia Jones-Artell a Mrs Nia Thomas-Jones. Y Llywodraethwr dynodedig yw Mrs Elin Sion.**
**Y person enwebedig ar gyfer amddiffyn plant o fewn yr Awdurdod Addysg Leol pe na bai rhieni yn fodlon gydag ymateb yr ysgol yw Scott Fordwhalley - scott.fordwhalley@conwy.gov.uk.** (Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer Addysg)

Yr aelod o staff sy’n gyfrifol am blant mewn gofal yw Mrs Nia Jones-Artell.

Gweler ein Polisi Diogelu ac Amddiffyn ar ein gwefan : Ysgol Betws Y Coed | Betws Y Coed, Conwy

Canllawiau ynglŷn â dod a Phlant i’r Ysgol

Diogelwch eich plentyn yw un o brif flaenoriaeth i’r ysgol. Diolchwn am eich cydweithrediad gyda’r materion canlynol:

- Dylai pob plentyn fod yn yr ysgol yn brydlon **erbyn 8.55**. Os yr ydych yn cyrraedd yr ysgol ar ôl 8.55 y.b. mae angen tywys eich plentyn i’r brif fynedfa a chanu’r gloch

- Gofynnir i rieni’r ysgol sicrhau fod giatiau'r ysgol wedi eu cau ar bob achlysur a bod y bar ‘sbring’ ar gau yn y brif giât.

- Ni ddylid dod â chŵn ar dir yr ysgol ar unrhyw adeg.

- Y mae adeiladau ac eiddo Cyngor Conwy yn sefydliadau di-fwg, gofynnir i rieni/warcheidwaid beidio ysmygu na ‘vapio’ ar dir yr ysgol.

- Gofynnir i chi beidio â gollwng eich plentyn y tu allan i giâtiau’r ysgol, gan fod hyn yn creu sefyllfa beryglus iawn i blant sydd yn cerdded i’r ysgol. **Ni ddylid parcio ceir wrth giatiau'r ysgol nac ar y llinellau ‘zig-zag’**.

## YMDDYGIAD A DISGYBLAETH YN YR YSGOL

Bydd y Pennaeth a’r staff yn gwneud popeth sy’n bosib i greu bywyd ysgol hapus. Yr ydym yn gweithio gyda’n gilydd i sefydlu awyrgylch tawel, cynhyrchiol a hapus yn ein hysgol. Disgwyliwn agwedd gyfrifol ac ymddygiad priodol ac ystyriol gan ein disgyblion. Disgwyliwn i ddisgyblion ddangos parch tuag at athrawon a staff yr ysgol, cyd-ddisgyblion, adeiladau ac offer yr ysgol.

**AMCANION**
**Meithrin mesur cynyddol o hunanddisgyblaeth a bob disgybl i ddysgu derbyn cyfrifoldeb am ei ymddygiad ei hun.**

**CANLLAWIAU GWEITHREDU**

1. Hyrwyddo agweddau gofalgar tuag at eraill ble cydnabyddir a gwerthfawrogir llwyddiant ar bob lefel. ymddygiad
2. Sefydlu ymateb cyson a di-oed i faterion ymddygiad
3. Dynodi beth yw ymddygiad diogel a derbyniol
4. Codi ymwybyddiaeth o beth sy'n dderbyniol
5. Gweithio gyda rhieni / gwarcheidwaid i gyflawni ein hamcanion

Credwn yn gryf mewn meithrin dysgwyr fydd yn dilyn yr isod:

- ☺ Parchu pawb a phopeth
- ☺ Gweithio eich gorau glas
- ☺ Helpu eich gilydd
- ☺ Gwrando'r tro cyntaf
- ☺ Gofyn am gymorth
- ☺ Siarad am rywbeth sy'n eich poeni
- ☺ Ymddwyn yn gwrtais
- ☺ Codi eich llaw

Bydd problemau disgyblaeth ddifrifol yn cael eu cyfeirio at y Pennaeth Cynorthwyol a'r Pennaeth, ac mewn sefyllfaoedd eithafol gofynnir i rieni ymweld â'r ysgol i drafod unrhyw bryderon er mwyn gweithio gyda'n gilydd i'w datrys.

Gweler ein Polisi Ymddygiad, Disgyblaeth a Gwaharddiadau ar ein gwefan : Ysgol Betws Y Coed | Betws Y Coed, Conwy

## PARCHU EIN GILYDD – ARWEINIAD GWRTH-FWLIO

Mae gan bawb yn Ysgol Betws y Coed yr hawl i deimlo'n gartrefol, yn ddiogel a hapus. A dyma'r unig ffordd i holl aelodau'r ysgol allu cyrraedd eu llawn botensial. Mae unrhyw fath o fwlio yn rhwystro gweithredu cyfleoedd cyfartal. Mae gan bawb gyfrifoldeb i atal bwlio, ac mae gan bob aelod o'r ysgol yr hawl sylfaenol i gael eu parchu gan bawb a mwynhau bywyd hapus yn yr ysgol. Mae unrhyw ffurf o fwlio yn annerbyniol. Bydd yr ysgol yn gwneud pob ymgais i sicrhau nad yw bwlio'n digwydd.

Os digwydd bwlio rhaid i ddisgyblion a dargedir fod yn ffyddiog y gall yr ysgol ddelio â'r broblem mewn modd effeithiol. Ein nod ydyw herio unrhyw fath o fwlio, cynyddu'r cydymdeimlad ag unrhyw ddisgybl/unigolyn a gaiff ei fwlio a helpu i ddatblygu ethos gwrth-fwlio o fewn yr ysgol.

Gweler ein Polisi Gwrthfwlio ar ein gwefan : Ysgol Betws Y Coed | Betws Y Coed, Conwy

## TREFN GWYNO

Mae'r Awdurdod Addysg Leol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 23 o Ddeddf Diwygio Addysg 1980, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae Cyrff Llywodraethu'r ysgolion a'r

Awdurdod yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol.

**Pwysleisir** fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaeth gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol.

Gweler ein Polisi a Gweithdrefnau Cwynion ar ein gwefan : Ysgol Betws Y Coed | Betws Y Coed, Conwy

## IECHYD A DIOGELWCH

Mae'r Llywodraethwyr yn monitro pob agwedd o Iechyd a Diogelwch yn Ysgol Betws y Coed a chymerir pob gofal posib i sicrhau diogelwch y plant tra maent yn yr ysgol. Mae drws prif fynedfa'r ysgol yn cael ei gloi yn ystod y dydd ac nid yw plant yn cael gadael yr ysgol yn gynnar heb ganiatâd. Os oes newid yn y trefniadau arferol, gofynnir i rieni hysbysu'r Pennaeth Cynorthwyol/Pennaeth a dylid sicrhau fod y plentyn yn cael ei gasglu o brif fynedfa'r ysgol.

Rhaid i bob ymwelydd ymweld â'r ysgol trwy'r brif fynedfa gan arwyddo i mewn er mwyn cael mynediad i'r ysgol. Ceir larwm lladron a larwm tân yn yr ysgol a bydd 'ymarferion tân' yn cael eu cynnal yn dymhorol a chynhelir 'ymarfer argyfwng' yn ogystal. Mae cymhareb dda o oedolion i blant yn ystod amser chwarae i oruchwylio'r disgyblion gydag ymarferwyr cymorth cyntaf ar gael.

### DAMWEINIAU

Er gwaethaf ein gofal gorau bosib, mae damweiniau weithiau yn digwydd. Mae'r nifer ofynnol o staff wedi eu cymhwyso i gynnal cymorth cyntaf. Mae'r mwyafrif o'r damweiniau yn rhai bychain ac yn cael eu trin gan y staff. Bydd rhieni yn cael eu hysbysebu ymhob achos ble mae niwed i'r pen wedi digwydd a bydd y plant yn cael eu monitro. Mewn achos difrifol, gwneir pob ymgais i gysylltu gyda'r rhiant. Pan mae anafiadau difrifol cysylltir â'r gwasanaethau argyfwng ar unwaith a bydd y disgybl yn cael ei gysuro ac yn derbyn y driniaeth argyfwng addas. Cysylltir â'r rhieni / gofalwyr a chaiff y disgybl eu hebrwng i'r ysbyty gan aelod o staff os na fydd rhiant / gofalwr wedi cyrraedd mewn pryd.

### MEDDYGOL

Disgwylir i rieni hysbysu'r ysgol o unrhyw gyflwr meddygol a allai effeithio ar y plentyn. Bydd rhaid i bob rhiant lenwi ffurflen gwybodaeth feddygol/dietegol cyn i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol. Mae canllawiau pendant ar gyfer cadw plant adref ar ôl salwch megis 'byg' stumog - 48 awr ayb. Cysylltwch â'r ysgol am ragor o wybodaeth os oes angen.

Mae'n rhaid i rieni lenwi ffurflen 'Trefniant Rhoi Meddyginiaeth' pe bai angen rhoi moddion 'presgripsiwn' i'w plant neu os yw'r plentyn yn dioddef o unrhyw salwch neu alergedd sydd angen sylw arbennig. Mae hyn yn cynnwys pympiau asthma. Yn ôl Polisi Meddyginiaeth yr ysgol nid oes gofyn i aelodau staff ysgol weinyddu moddion presgripsiwn, os bydd aelodau staff yn gwrthod gwneud, bydd yn gyfrifoldeb y rhieni i drefnu gyda'r Pennaeth i ddod i weinyddu'r moddion.

## GWEITHGAREDDAU YCHWANEGOL

Gobeithia'r ysgol sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni gyda'r holl weithgareddau ychwanegol a drefnir.
Rydym yn credu yn gryf fod plant yn dysgu orau drwy brofiadau real, boed hynny yn yr ystafell ddosbarth neu y tu allan. Yn ystod ein themâu byddwn yn trefnu gweithgareddau y tu allan i'r ysgol e.e. cestyll lleol, pentrefi/trefi lleol, amgueddfeydd, a.y.b. Gofynnir i rieni roi caniatâd swyddogol i'w plant gymryd rhan yn y gweithgareddau os yw'n golygu mynd yn ystod oriau ysgol, a hynny drwy lenwi ffurflen briodol ar ddechrau cyfnod y plentyn yn yr ysgol. Byddwn yn hysbysu rhieni/gofalwyr o fanylion yr ymweliadau / gweithgareddau cyn y dyddiad.

## YMWELIADAU ADDYSGOL

Yn ystod y flwyddyn bydd y disgyblion yn cael cyfleoedd i ymweld â safleoedd a chymryd rhan mewn gweithgareddau sydd yn gysylltiedig â'u themâu.

Mannau megis:
- Gwersyll yr Urdd Glan Llyn/Caerdydd/Llangrannog
- Fferm Parc Manorafon / Rhug
- Oriel Môn
- Betws y Coed,Llanrwst, Llandudno
- Castell Conwy / Dolwyddelan

Credwn fod plant yn dysgu yn well pan fyddent yn cael profiadau byw a'u rhoi mewn sefyllfaoedd real unai o fewn neu oddi allan i'r dosbarth. Mae ymweliadau addysgiadol yn rhan o roi'r profiadau yma i'r plant ac yn ymestyn eu dysgu. Ni allwn godi am y gweithgareddau yma yn gyfreithlon, serch hynny ni allwn gynnal y gweithgareddau heb ofyn am gyfraniad gwirfoddol ar gyfer y gost.

## FFONAU SYMUDOL

Ni chaniateir i ddisgyblion ddod a ffonau symudol i'r ysgol oni bai bod **amgylchiadau eithriadol** a bod trefniant ymlaen llaw rhwng y rhieni a'r Pennaeth Cynorthwyol/Pennaeth.

Mae gan yr ysgol yr hawl i wrthod caniatáu i droseddwyr parhaus i ddod a ffôn symudol i'r ysgol.
Disgwylir i holl wirfoddolwyr, ymwelwyr, llywodraethwyr a chontractwyr ddilyn ein polisi ffonau symudol tra ar dir yr ysgol.

## YMGYSYLLTU Â RHIENI

Mae cydweithrediad agos rhwng yr ysgol a'r cartref yn hanfodol os ydym am sicrhau fod y plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial. Mawr obeithiwn y bydd rhieni'n ymddiddori yn addysg y plant ac yn cefnogi'r ysgol yn ei gwaith dyddiol a'i gweithgareddau. Gwerthfawrogwn y berthynas agos yma gyda rhieni gan mai gyda'n gilydd y byddwn yn helpu eich plentyn orau.

Mae croeso i chi bob amser drafod unrhyw fater sy'n effeithio ar les neu gynnydd eich plentyn. Rydym yn falch o'n polisi drws agored.Os hoffech siarad â ni, a fyddwch cystal â threfnu ymlaen llaw.

Gwahoddir rhieni sy'n dod a'u plant i'r ysgol am y tro cyntaf i gyfarfod y Pennaeth Cynorthwyol /Pennaeth a'r Athrawes Ddosbarth i drafod unrhyw bryderon neu gwestiynau. Gwahoddir y plant sy'n cychwyn yn y dosbarth meithrin neu yn ein darpariaeth cyn-meithrin i gael sesiwn blasu yn y dosbarth yn ystod y tymor blaenorol. Gwahoddir rhieni i fynychu nifer o weithgareddau ar y cyd gyda ni yn ystod y flwyddyn e.e. Gwasanaeth Diolchgarwch, Cyngherddau / Gwasanaeth Nadolig, Cyngerdd Dydd Gŵyl Ddewi, Mabolgampau a Chyngerdd Ffarwelio Diwedd Blwyddyn.

Rydym yn cynnal dwy brif noson rieni yn ystod y flwyddyn academaidd lle roddir cyfle i rieni weld gwaith eu plentyn a thrafod cynnydd gyda'r athro dosbarth drwy drafod adroddiad cryno. Anfonir adroddiad ysgrifenedig adref tua diwedd tymor yr haf a chyfle i rieni ddod i mewn os dymunent drafod yr adroddiad. Trefnir cyfarfodydd person ganolog trwy gydol y flwyddyn ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Fel bob amser, os oes gennych bryderon, cysylltwch ag athro eich plentyn a byddant yn falch o helpu.

Mae llythyrau rheolaidd yn cael eu gyrru adref i hysbysu rhieni o'r hyn sydd yn mynd ymlaen yn yr ysgol; ein dymuniad yw bod yn gwbl ddi-bapur. Rydym hefyd yn defnyddio 'Parent Pay' i yrru negeseuon testun i rieni er mwyn atgoffa am ymweliad/ddigwyddiad neu er mwyn rhannu gwybodaeth brys. Gofynnwn i chi rhoi gwybod i'r ysgol, ar unwaith, o unrhyw newidiadau i rifau ffôn yn enwedig rhifau ffôn symudol yn ogystal ag unrhyw newid i'r cyfeiriad e-bost. Mae'n hynod bwysig bod gan yr ysgol fanylion cyswllt cyfredol rhag ofn bydd angen cysylltu mewn argyfwng.

Ni all yr ysgol hon lwyddo heb gefnogaeth y rhieni. Yr ydym felly yn eich annog i ymddiddori yn addysg eich plant ac i fod yn gefn i'r ysgol yn ei gwaith ac yn ei gweithgareddau cyhoeddus.

## CYFEILLION YR YSGOL

Mae'r ysgol yn annog rhieni i gymryd rhan weithgar yng Nghyfeillion yr ysgol. Mae'r grŵp 'Cyfeillion' yn darparu nifer o weithgareddau sydd yn codi arian i'r ysgol. Mae cefnogaeth rhieni i'r gweithgareddau hyn yn cael ei chroesawu yn gynnes iawn bob amser, ac maent bob amser yn chwilio am aelodau newydd brwdfrydig.

## RHEOLIADAU AMDDIFFYN DATA CYFFREDINOL (GDPR)

Mae'r ysgol yn cydymffurfio a gofynion newydd ynglŷn â sut i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel.

## DEDDF RHYDDID GWYBODAETH

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn mynnu bod cyrff a ariennir gan arian cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion yn egluro pa wybodaeth a gyhoeddir ganddynt. 'Rydym wedi llunio cynllun cyhoeddi sy'n nodi'r holl wybodaeth a gyhoeddwn yn rheolaidd a ble i ddod o hyd iddo. Gofynnwch i'r Pennaeth am gael gweld y cynllun cyhoeddi neu ddarparu copi i chi.


PIC•COLLAGE


BBC
PLANT
MEWN ANGEN
Children in Need
PIC•COLLAGE




Wal Weithio



